

Dechrau: Gorsaf Drenau Pontarddulais

Dyma gyfle cyffrous i bawb sy'n hoffi Ramble a Scramble gerdded o amgylch Pontarddulais! Bydd ein dreigiau yn mynd â chi drwy barc Coed Bach, ac ymlaen i'r gwlyptiroedd er mwyn edrych ar fywyd gwyllt ac archwilio adeiladau hanesyddol!

Pellter: 2.9 milltir

Pa mor anodd: Hamddenol

Amser: 2 awr



Mae'r daith o'r orsaf i Barc Coed Bach yn addas i gadeiriau olwyn a chadeiriau gwthio.



Mae llefydd i brynu bwyd a diod ar y stryd fawr.



Mae toiledau cyhoeddus ar gael yn y pentref.

1

Cerddwch drwy'r maes parcio tuag at y brif ffordd. Trowch i'r chwith yma. Byddwch yn ofalus wrth gerdded ar hyd y ffordd a chroeswch y ffordd yn ofalus ger Clwb y Gweithwyr.

2

Dilynwch y ffordd o'ch blaen, gan fynd heibio i sawl siop goffi a lle bwyta hyfryd. Ewch ymlaen nes byddwch yn cyrraedd Trinity Place ar y dde, gan chwilio am yr arwydd glas ar gyfer Parc Coed Bach.

3

Dilynwch yr arwyddion glas sy'n mynd â chi i mewn i'r parc ble bydd eich antur yn dechrau! Ar ôl mynd i mewn i'r parc, dilynwch y llwybr ar y dde i fynd â chi o amgylch y cael pêl-droed. Yn y pen pellaf dilynwch yr arwyddion ar gyfer y llwybr troed (sydd â llun person yn cerdded arno).

4

Dilynwch y llwybr hwn nes byddwch yn cyrraedd gât mochyn. Cerddwch dros y cae o'ch blaen nes byddwch yn cyrraedd gât mochyn arall sy'n mynd â chi at y gwlyptiroedd.

Gweithgaredd 2 - Yr hen eglwys

Allwch chi weld safle'r hen eglwys? Gwnewch lun o sut oedd yr hen eglwys yn eich barn chi!

5

Dilynwch y llwybr dros y bont (cofiwch wisgo esgidiau addas gan ei bod yn eithaf gwlyb yma!) Wrth gerdded drwy'r gwlyptiroedd cadwch eich llygaid ar agor am yr holl fywyd gwyllt sydd o'ch cwmpas, yn enwedig yr adar sy'n byw yma! Mae'n bryd i chi wneud eich gweithgaredd cyntaf!

Gweithgaredd 1 - Gwyltio adar

Byddwch yn dawel iawn, edrychwch o'ch cwmpas a gwrandewch yn ofalus. Gofynnwch i oedolyn amseru 5 munud. Faint o adar gwahanol allwch chi eu gweld?



Chwiliwch am ein poster Ramble a Scramble yn yr orsaf drenau i wneud yn siŵr eich bod yn y lle cywir!

6

Dilynwch yr arwyddion tuag at y fferm sydd o'ch blaen. Wrth i chi agosáu at y fferm dylech allu gweld hen fynwent Eglwys Llandeilo Tal-y-Bont. Dyma ble y gallwch wneud weithgaredd 2!

7

Ar ôl i chi orffen eich llun ac efallai cael picnic bach, mae'n bryd i chi ddilyn y llwybr yn ôl ar draws y gwlyptiroedd i Barc Coed Bach.

8

Ar ôl i chi gyrraedd yn ôl i'r cae pêl-droed trowch i'r dde tuag at y coetir i wneud gweithgaredd arall ac i chwarae yn y parc!

Gweithgaredd 3 - Chwilio am goed

Gallwch ganfod beth yw'r gwahanol fathau o goed drwy edrych ar eu dail a'u hadau. Faint o goed gwahanol allwch chi eu gweld?



9

Ar ôl cael hwyl yma, ewch allan o'r parc a dilynwch Heol Gwynfryn ar hyd lôn fach nes i chi gyrraedd y brif ffordd. Trowch i'r chwith yma a cherdded tan i chi gyrraedd yr holl gaffis a siopau a welsoch yn gynharach, ble y gallwch gael tamed i'w fwyta! Yna dilynwch y llwybr yn ôl i'r orsaf drenau ar gyfer eich taith adref!